**Cyngor Cymuned Llanwnda**

**Is-bwyllgor Staffio**

**Teams - nos Iau, Tachwedd 28ain, 2025 am 7 o'r gloch.**

Yn bresennol: Nia Gruffydd (Cadeirydd), Dyfan Thomas, Avril Evans (AME)

Ymddiheuriadau: Jason Hunt

Pwrpas y cyfarfod oedd cynnal cyfarfod adolygu cyfnod prawf y Clerc.

Diolchwyd i Avril am ei gwaith hyd yma, gyda'r Aelodau yn hapus iawn gyda'r ffordd mae Avril wedi cydio yn y gwaith, a bod popeth yn cael ei wneud mewn modd amserol a thrylwyr.

Adroddodd Avril ei bod yn teimlo fod popeth i'w weld yn mynd yn dda, ac nad oedd anhawster o gwbl yn codi o ran gweithio ei oriau wythnosol i'r Cyngor Cymuned, ochr yn ochr â'i gwaith llawn amser gyda Chyngor Gwynedd. Roedd yn hyderus ei bod yn gallu ymateb i ohebiaeth yn amserol a gweithredu yr holl bwyntiau gweithredu yn dilyn pob cyfarfod, yn syth. Mae modd iddi gyflawni holl ofynion y swydd o fewn yr oriau dynodedig.

Rhai rhwystrau a godwyd gan AME oedd:

1. Mae ei laptop presennol yn hen ac nid yw'n gallu ei ddefnyddio i gynnal cyfarfodydd ar-lein.
2. Cyfathrebu gyda'r Aelodau yn her o ran bod angen sicrhau copiau papur. Hefyd, nid yw pob Aelod yn ymateb i negeseuon e-bost.
3. Trefniadau bancio a thalu – aros i setio i fyny bancio ar-lein ar hyn o bryd, er mwyn lleihau gorfod defnyddio siec fel modd talu. Cydnabyddwyd fod hyn mewn llaw.

**Pwyntiau Gweithredu**

1. DT i archebu laptop newydd i AME. Trafodwyd nad oedd angen argraffydd ar hyn o bryd ac mae ei offer swyddfa e.e. desg/cadair ayyb yn addas ar ei chyfer, ac yn cydymffurfio gyda gofynion gweithfan.
2. Cytunwyd bod AME yn parhau i argraffu trwy drefniant gyda gwasanaeth argraffu Cyngor Gwynedd. Mae angen annog yr Aelodau i ymateb i ohebiaeth gan y Clerc rhwng cyfarfodydd a bod yn barod i ddefnyddio e-bost fel cyfrwng cyfathrebu wrth symud ymlaen.
3. Bancio Ar-lein yn y broses o gael ei weithredu ac angen sicrhau fod taliadau – yn cynnwys debyd uniongyrchol - yn gallu cael eu gwneud ar-lein yn y dyfodol..

Cyfleoedd a godwyd yn ystod y drafodaeth:

1. Cyfleoedd datblygu a hyfforddiant ar gyfer Clercod. Cytunodd AME byddai hyn o gymorth i'w rôl.
2. Cyfleoedd i ddatblygu gwefan y Cyngor Cymuned
3. Ymgyfarwyddo gyda threfniadau'r Fynwent.

**Pwyntiau Gweithredu**

1. Cytunwyd bod AME yn ymaelodi gyda SLCC (Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol) ac yn edrych ar gyrsiau hyfforddi e.e Cwrs Cyflwyno a chwrs Lefel 3 CiLCA(Certificate in Local Council Administration), yn ogystal â chyrsiau Un Llais.
2. Cytunwyd i drafod anghenion hyfforddi y Clerc yng nghyfarfod y Cyngor – a bydd angen trafod Cynllun Hyfforddi i'r Clerc ochr yn ochr â Chynllun Hyfforddi i'rAelodau.
3. Bydd y wefan yn cael ei datblygu yn fuan a bydd angen blaenoriaethu gwaith e.e. pa ddogfennau fydd angen eu huwchlwytho yn gyntaf.
4. Bydd AME yn cysylltu i gyflwyno'i hun i gwmni ymgymerwyr Roberts ac Owen, ac i'w hatgoffa bod angen y gwaith papur cyn pob claddedigaeth.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.45 y.h